



Fforwm Mynediad Lleol Sir y Fflint 12



FFORWM MYNEDIAD LLEOL SIR Y FFLINT

29 Mehefin 2026

Parc Gweptra, Ystafell yr Ardd, Cei Connah.

Cofnodion

Aelodau – Huw Morgan, John Holiday, Y Cynghorydd Dave Evans, Miranda Dechazal, John Huw Jones, Tom Wasiuk-Williams, Shirley Fermor, Kieren Barlow

Swyddogion yn Bresennol - Tom Woodall, Adrian Hibbert, Stuart Jones, Natalie Davies, Suzanne Williams, Jon Hill.

Ymddiheuriadau – Ed Swan, Alan Neale, Jeff Shone.

1/ Croeso -

Croesawodd TW bawb i 12fed cyfarfod y Fforwm Mynediad Lleol, y cyntaf yn y tymor 3 blynedd cyntaf. Fel Ysgrifennydd i'r Fforwm, bu i TW gymryd y gadair cyn ethol Cadeirydd/Is-Gadeirydd newydd.

2/ Cyflwyniadau –

Cafwyd cyflwyniadau gan bawb a oedd yn bresennol a derbyniwyd ymddiheuriadau.

3/ Cyflwyno'r cefndir –

Aeth TW trwy'r rhaglen ar gyfer y cyfarfod heddiw a rhoddodd drosolwg o'r hyn fydd yn cael ei drafod.

4/ Cyflwyniad Sefydlu, Rhan 1 -

Rhoddodd TW gyflwyniad i aelodau (yn amgaeedig), i ddarparu gwybodaeth allweddol a chefnidir i fusnes y Fforwm Mynediad Lleol, i gynnwys ei bwrpas a chylch gorchwyl statudol.

Dywedodd TW bod bob aelod yn cael eu penodi fel unigolion nid i gynrychioli grŵp, a dylent ganolbwyntio ar faterion strategol yn hytrach nag achosion unigol. Dywedodd bod gennym gynrychiolaeth dda o wybodaeth a phrofiad ond roedd rhai bylchau, er enghraifft, ceffylau.



Fforwm Mynediad Lleol Sir y Fflint 12



Gofynnodd KB os oedd hi'n bosib cynnal cyfarfod ar-lein weithiau. Dywedodd TW y gallem efallai ei ystyried dros fisoedd y gaeaf pan fo'n fwy anodd i bobl fynychu wyneb yn Wyneb.

Dywedodd HM, gan ein bod yn wasanaeth statudol, sawl cyfarfod sydd angen i ni ei gynnal mewn blwyddyn. Ymatebodd TW bod y canllawiau'n awgrymu isafswm o 2 y flwyddyn ond dylai bob fforwm benderfynu

5/ Cyflwyniad Sefydlu, Rhan 2 -

Rhoddodd SJ gyflwyniad i aelodau (yn amgaaedig) i ddarparu trosolwg o'r gwasanaeth, a oedd yn cynnwys ystadegau rhwydwaith ac enghreifftiau o waith a wnaed. Amlygodd SJ y system CAMs Teams, ac awgrymodd ei fod yn cynnal sesiwn hyfforddiant arall i aelodau.

Gofynnodd JH beth ydym yn ei wneud o ran hyrwyddo gwaith da Sir y Fflint a'r Fforwm Mynediad Lleol? Dywedodd SJ bod gennym dudalen Facebook ac Instagram sydd o dan Cefn Gwlad ac Arfordir Sir y Fflint. Ychwanegodd TW bod gennym dudalen gwe benodol ar gyfer gwaith y Fforwm Mynediad Lleol ond byddai'n syniad da i gryfhau proffil y fforwm a allai arwain at fwy o ddiddordeb gan bobl i ymuno.

6/ Pynciau posib i'r Fforwm Mynediad Lleol eu hystyried-

Atgoffodd TW yr aelodau y byddai'r fforwm yn gosod ei raglen ei hun a gofynnodd i aelodau ystyried pynciau'r dyfodol

Gofynnodd TWW beth oedd y llwyddiannau mwyaf yn y gorffennol?

Awgrymodd TW bod aelodau yn edrych ar waith blaenorol y fforwm trwy'r adroddiadau blynyddol ar y dudalen we. Bu iddo barhau i nodi mai'r pethau roedd yn eu gwerthfawrogi fwyaf yw'r adborth ar yr Ymgynghoriad ar y Parc Cenedlaethol, cynhyrchu'r llyfrynau Teithiau Cerdded Gwledig, a datrys y problemau gyda'r Rhwystr Mynediad.

Dywedodd SJ bod angen i ni gydnabod bod Teithio Llesol yn cael ei ystyried yn bwysig iawn gan y fforwm diwethaf.

Cytunodd JH a byddai'n hoffi gweld rhaglen o lwybrau di-draffig o'r Wyddgrug i Lannau Dyfrdwy, Bwcle i Lannau Dyfrdwy.

Dywedodd DE bod cysylltu rhai cymunedau yn bwysig iawn megis Sandycroft i Airbus ac Airbus i Saltney ac mae angen llwybr diogel rhwng Cei Connah a'r Fflint.



Fforwm Mynediad Lleol Sir y Fflint 12



Nododd DE bod Network Rail eisiau cau'r croesfannau rheilffordd. Dywedodd SJ ei fod yn delio gyda Network Rail yn rheolaidd ac maent bob amser yn edrych am ffyrdd i wella.

Dywedodd DE eu bod yn gosod lifftiau yng ngorsaf y Fflint erbyn 2028, dywedodd y bydd hyn yn wych i feicwyr a defnyddwyr cadeiriau olwyn a rhoi mynediad iddynt i'r rheilffordd.

Dywedodd TW y gallai Network Rail ddod i roi cyflwyniad i aelodau.

Dywedodd HM fod y fforwm wedi treulio'r tair blynedd ddiwethaf yn trafod llwybrau mynediad posibl yn y sir ac y byddai'n siomedig iawn petaem yn dal yn eu trafod ymhen tair blynedd arall heb wneud unrhyw gynnydd ar rai ohonyn nhw.

Cadarnhaodd HM fod ffermwyr sy'n cofrestru ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn gorfod cadw at ofyniad rheoli statudol 14 – sy'n nodi'r rheolau ar gyfer cydymffurfio â deddfwriaeth mynediad i'r cyhoedd, hawliau tramwy cyhoeddus a rheoli tiroedd agored yng Nghymru.

Gofynnodd MD os ydym wedi trafod grwpiau lleiafrifoedd ethnig o fewn y Fforwm Mynediad Lleol, dywedodd y gallai gael rhywun i roi sgwrs.

Dywedodd MD bod diffyg addysg ar y Cod Cefn Gwlad ac efallai y gellir cysylltu ag ysgolion.

Rhestr o eitemau rhaglen yn y dyfodol:

Teithio Llesol a chysylltiadau cymunedol

Croesfannau Rheilffordd

Ehangu amrywiaeth mewn mynediad yng nghefn gwlad

Gwella addysg a'r Cod Cefn Gwlad

Codi ymwybyddiaeth o Sir y Fflint hanesyddol a diwylliannol trwy'r rhwydwaith hawliau tramwy

Adolygu a chynhyrchu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy

Cynllun Ffermio Cynaliadwy

7/ Ystyried rôl Cadeirydd Fforwm Mynediad Lleol

Pwysleisiodd TW bod angen ethol cadeirydd ac is-gadeirydd y fforwm; ni all fod yn Swyddog. Amlygodd TW y disgwyliadau eang a'i dyletswyddau a sut y byddai'r Tîm Mynediad yn cefnogi gweinyddiaeth y swydd. Dywedodd HM nad oedd swydd yr is-gadeirydd yn ormod o waith y tymor diwethaf.



Fforwm Mynediad Lleol Sir y Fflint 12



Gofynnodd TW i bob aelod ystyried eu diddordeb ac i gysylltu ag o cyn y cyfarfod nesaf i drafod.

8/ Unrhyw Fater Arall a dyddiad y cyfarfod nesaf

Nid oedd unrhyw faterion eraill a daeth y cyfarfod i ben am 1.45pm.

Dyddiad y cyfarfod nesaf -

28 Medi 2026

18 Ionawr 2027